

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01504/18

Y Cyngorydd Darren Price
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant
Cyngor Sir Caerfyrddin

DemocraticServices@carmarthenshire.gov.uk

26 Mehefin 2018

Annwyl Gyngorydd Price

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 6 Mehefin yn rhestru sylwadau gan Bwyllgor Craffu Addysg a Phlant Cyngor Sir Gaerfyrddin ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am gydnabod bod gan awdurdodau lleol rôl fawr i'w chwarae o ran cefnogi a, lle bo angen, herio teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Fel y soniwyd gennych, cyhoeddais ar 30 Ionawr fy mod yn bwriadu defnyddio'r pwerau presennol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol greu cronfa ddata, a hefyd cyhoeddi canllawiau newydd i'r awdurdodau lleol a rhieni sy'n dewis addysgu yn y cartref.

Fy mwriad yw ymgynghori ar ddefnyddio'r pwerau presennol yn adran 29 o Ddeddf Plant 2004 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol greu cronfa ddata a fydd yn eu helpu i nodi plant nad ydynt yn cael addysg briodol. Ar ôl pwysu a mesur, rwyf wedi dewis gofyn i awdurdodau lleol greu cronfa ddata yn hytrach na bod pob dysgwr yng Nghymru'n cael ei gofrestru. Dyma'r ffordd fwyaf cymesur, yn fy marn i, o ymdrin â'r mater a phrofi cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn hanfodol pan fydd yr awdurdodau lleol yn anfodlon â safon yr addysg a ddarperir gan addysgwyr cartref, ac yn cynnig llwybr iddynt fynnu bod y plant hyn yn mynychu'r ysgol os oes angen a hynny drwy ddefnyddio Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er fy mod yn deall eich dymuniad i weld cofrestr orfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflawni hyn. Cyn mynd ar drywydd hynny, rwyf am sicrhau ein bod wedi ystyried yr holl opsiynau y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn eu cynnig i ni ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas ag addysg yn y cartref. Efallai bod gofyn i rieni gofrestru eu bod yn addysgu yn y cartref yn swnio'n synhwyrol; ond ni fydd rhoi dyletswydd ar rieni yn cymell pob rhiant i gofrestru. Os oes gofyn i awdurdod lleol orfodi dyletswydd ar rieni, dylai wybod pwy ydynt gyntaf.

Bydd canllawiau statudol yn amlinellu'r trefniadau y bydd gofyn i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith ar gyfer gweithredu a rheoli'r gofrestr. Byddant hefyd yn disgrifio'r gweithgareddau y bydd angen i awdurdodau lleol eu gwneud er mwyn nodi plant sy'n derbyn addysg yn y cartref nad ydynt eisoes yn ymwybodol ohonynt, a'r rheini nad ydynt yn cael addysg briodol.

Bydd y dull hwn yn sicrhau bod lefel yr ymgysylltu gan yr awdurdodau lleol yn gyson a bod teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn cael yr un lefel o gymorth.

Fy mwriad yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael addysg briodol. Ni allwn dybio bod pob plentyn a addysgir yn y cartref yn agored i niwed gan fod amrywiaeth eang o resymau pam fod rhieni'n dewis addysgu yn y cartref. Ni ddylai diogelu fod yn fater i'r byd addysg yn unig; mae'n fater i bob asiantaeth sydd â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc. Beth bynnag fo'r rheswm dros ymddieithrio wrth y gwasanaethau, mae angen dull amlasiantaeth er mwyn mynd ati ar y cyd i sicrhau bod y gwasanaethau'n ymwybodol o fodolaeth pob plentyn. Caiff y gronfa ddata ei defnyddio at ddibenion addysgol. Fodd bynnag, os bydd awdurdod lleol yn nodi mater diogelu neu fater troseddol wrth wneud asesiad, dylai ddelio â'r mater dan sylw yn yr un modd ag y mae'n delio â materion o'r fath pan fyddant yn codi mewn gwaith arall.

Serch hynny, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen amlasiantaeth wedi bod yn cwrdd, a hynny o dan gadeiryddiaeth Keith Towler o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, i ddatblygu *Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sy'n derbyn addysg yn y cartref*.

Bwriedir i'r canllawiau ymarfer hyn gael eu defnyddio ar y cyd â'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol newydd sy'n cael eu datblygu gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ar ran ADSS Cymru a'r Byrddau Diogelu yng Nghymru. Bydd rhaglen hyfforddi ar gael hefyd i helpu i roi'r canllawiau ar waith a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru y dylai pob plentyn yn ddiogel.

Rydych hefyd yn dweud yn eich llythyr bod gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref lai o fynediad i wasanaethau cyffredinol, ac mae hyn yn wir. Drwy ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol, rwy'n ymrwymo i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i addysgwyr cartref (fel mynediad i Hwb, help i gofrestru ar gyfer arholiadau a mwy o gefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol) ac i ystyried sut y gellir ymestyn yr hawl gyffredinol i blant sy'n derbyn addysg yn y cartref.

Bydd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018, yn trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru er mwyn darparu cefnogaeth well i blant a phobl ifanc 0-25 oed.

Credaf y bydd y Ddeddf a'r Rhaglen Drawsnewid ehangach yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob lleoliad addysgol yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae adroddiad Cascade wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran llywio ein hystyriaethau'n ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref. Rydym bob amser yn croesawu ymchwil ar addysg yn y cartref a byddwn yn ceisio ymgorffori'r dystiolaeth a'r argymhellion o'r adroddiad lle bo'n briodol wrth i ni ddatblygu ac ymgynghori ar y rheoliadau a'r canllawiau statudol.


Wrth i ni ystyried ffyrdd o gefnogi addysg yn y cartref yn well ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae angen i ni hefyd ystyried sut all ysgolion ddarparu cefnogaeth well. Felly, mae fy swyddogion wedi bod yn trafod â nifer o ysgolion hyblyg yn Lloegr er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth, gyda golwg ar dreialu ysgol hyblyg yng Nghymru o bosibl. Maent hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i adolygu Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan a chodau presenoldeb er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n parhau i gefnogi disgyblion, rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol yn effeithiol. Mae'r adolygiad o'r codau yn cynnwys rhoi ystyriaeth i addysgu hyblyg, a gafodd ei ddwyn i'n sylw wrth i ni ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar draws Cymru.

Fy nod yw sicrhau bod y plant hynny sy'n derbyn addysg yn y cartref yn cael addysg addas sy'n darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial, ac na fydd yr addysg honno'n eu rhwystro ym mha bynnag lwybr y byddant yn ei ddewis. I gyflawni hyn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws Cymru i bennu beth yw addysg addas y tu allan i'r system brif ffrwd, gan gadw mewn cof nad yw'n ddarpariaeth tebyg am debyg.

Diolch eto am eich llythyr ac am ailgadarnhau eich cefnogaeth ar gyfer y broses o ailwampio'r system addysg yn y cartref yng Nghymru, a hefyd am gytuno bod y cynlluniau hyn yn "cydbwyso hawliau rhieni i addysgu plant yn y cartref, gyda disgwyliadau a dyletswyddau moesegol y Wladwriaeth". Hoffwn ddiolch i chi hefyd am gydnabod eich cyfrifoldeb i gefnogi pob teulu yn Sir Gaerfyrddin sy'n addysgu yn y cartref.

Rwy'n gobeithio y gallwn ddibynnu arnoch chi i gefnogi'r swyddogion drwy'r roi'r newidiadau hyn ar waith pan ddaw'r amser. Yn y cyfamser, hoffwn wahodd Su Crowther i gyflwyno eitem ar eich llythyr a'r ymateb hwn yn y cyfarfod nesaf i randdeiliaid ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education